TEITHIAU CERDDED OWRTYN

Coed a gweirgloddiau (trwy Blas yn Coed a Cloy) 5 milltir / 8km

Mae'r mwyafrif o ymwelwyr Owrtyn yn cyfyngu eu teithiau cerdded o fewn yr ardal ger yr afon. Mae'r daith bleserus hon yn dilyn rhai llwybrau llai adnabyddus ar draws cefn gwlad ymdonnog, trwy weirgloddiau a choed. Mae'r llwybr, fel pob un arall yn Owrtyn, wedi'u harwyddo'n llawn. Dilynwch y saethau melyn i ddarganfod y gamfa neu'r giât nesaf.
Nid yw'r llwybr hwn yn addas i gadeiriau olwyn, pramiau na phlant bach.

Ceir gwasanaeth bws da i Owrtyn o Wrecsam a'r Eglwyswen, gan gynnwys gwasanaeth ar ddydd Sul. Gwybodaeth: 01978 266166.

1. O'r maes parcio gyferbyn ag eglwys Owrtyn, trowch i'r dde (ar hyd Ffordd yr Eglwys) ac yna i'r chwith wrth y groesffordd ar hyd y ffordd fawr (A539 Wrecsam - Yr Eglwyswen). Croeswch y ffordd hon yn syth ac ewch ar hyd y rhodfa raean sydd wedi'i harwyddo. Cerddwch trwy ardd y Tŷ Trydan gan gadw'r tŷ ar yr ochr dde i chi ac ewch i'r cae dros gamfa isel. Cerddwch yn syth ymlaen ar draws y caeau dros chwe chamfa arall.

2. Ewch ymlaen i ddringo'r gamfa nesaf lle mae'r llwybr a arwyddir yn fforchio. Ewch syth ymlaen i'r cae a dros y gamfa a phont fach. Ewch yn syth ymlaen nes i chi gyrraedd camfa gyferbyn â'r goeden onnen fawr. Cadwch ar ochr dde'r cae ac ewch at y ffordd fawr.

3. Trowch i'r chwith a cherddwch am 50 metr ac yna cymerwch y troad cyntaf i'r dde ar hyd rhodfa Plas yn Coed. Ar ben y rhodfa ond cyn y pyst du a gwyn, trowch i'r dde trwy giât wen. Trowch i'r chwith a cherddwch wrth ymyl y ffens. Ewch trwy'r ail giât ar yr ochr chwith ac ewch dros y gamfa gyferbyn â'r pwll. Sylwch ar saethau Ffordd Maelor. Dilynwch ran o'r llwybr hir hwn am ryw 1 filltir.

4. Cerddwch ar draws y cae. Yn y dyffryn, ewch dros y bont droed i goedwig Plas yn Coed. Dringwch y llethr, gan gadw i'r chwith ar y pen, at giât. (Mae dwy giât 40m oddi wrth ei gilydd; sicrhewch eich bod yn mynd trwy'r un ar y chwith). Ewch ychydig i'r dde at y gamfa nesaf. Cerddwch dros y llinell reilffordd sydd wedi'i datgymalu (ychydig iawn sydd ar ôl o'r rheilffordd heblaw am ambell bostyn concrid) a daliwch i gerdded at y lôn. Trowch i'r chwith a throwch yn syth i'r dde dros bont y dyfrffos a'r gamfa.

5. Cerddwch ar hyd ymyl y gwrych ar yr ochr chwith ac ewch dros y gamfa gyntaf. Trowch i'r dde a chadwch at yr un gwrych. Ewch ymlaen trwy ddwy giât ac i mewn i goedwig Cae Drinion. Cerddwch i lawr y llwybr sydd wedi'i ddiffinio'n glir (CYMERWCH OFAL!), dros y bont droed ac i fyny trwy'r giât. Cerddwch ochr yn ochr â'r coetir ar yr ochr dde ac ewch dros y gamfa. Trowch i'r dde ar hyd y lôn.

6. Anwybyddwch y rhodfeydd ar yr ochr chwith ar gyfer ffermydd Crossmill a Blackwood ond ewch dros y gamfa ar yr ochr chwith y tu hwnt iddynt (gyferbyn â'r polyn teligraff). Daliwch ymlaen i lawr y llethr a chroeswch y nant. Cadwch y gwrych ar yr ochr chwith i chi. Mae'r gamfa nesaf gyferbyn â'r ail bwll ar yr ochr chwith. (Sylwch y gall pyllau sychu yn yr haf.) Nawr, cadwch ar ochr dde'r cae. Yng nghornel y cae ewch dros y gamfa a throwch hanner i'r chwith i gerdded yn groeslinol ar draws y cae tuag at sied fach i fynd dros y gamfa nesaf.

7. Daliwch i gerdded at gornel arall y cae (cadwch y fferm ar yr ochr chwith i chi) a dros y bont droed. Daliwch i gerdded i fyny'r llethr at y gamfa nesaf. Trowch i'r chwith ar hyd y lôn (Lôn Cloy) ac i'r dde at y ffordd fawr. Daliwch i gerdded dros yr hen bont reilffordd, yna yn syth ar ôl mynd heibio i'r cwmni ffensys ar yr ochr chwith, trowch i'r dde dros y gamfa y tu hwnt i'r rhodfa. Ewch dros y gamfa nesaf a daliwch i gerdded ar hyd llwybr caeedig. Ar ôl y gamfa, cerddwch ar hyd y cae gan symud i ffwrdd ychydig o'r gwrych ar yr ochr chwith. Ewch dros y bont. Daliwch i gerdded i fyny'r llethr yna ewch dros y gamfa tuag at y tŷ gwyn (Plas yn Coed eto) i gyrraedd a chroesi'r rhodfa. Rydych yn ôl ar Ffordd Maelor nawr.

8. Cerddwch ymlaen ar draws y cae gan symud i ffwrdd oddi wrth y ffens ar yr ochr dde, ac ewch i lawr i'r dyffryn trwy borth wrth y nant. Ewch i fyny'r cae i fynd dros y gamfa nesaf gyferbyn â'r hen goeden onnen. Trowch i'r chwith a chadwch y gwrych ar yr ochr chwith i chi. Y tu hwnt i'r pant, cerddwch i fyny'r llethr ac ar draws y cae at y gamfa nesaf ac yna trowch ychydig i'r dde i groesi'r cae at y gamfa nesaf ac yna trowch ychydig i'r dde i groesi'r cae tuag at ffens wifren. Ewch dros y gamfa a throwch i'r chwith. Mae'r gamfa nesaf 40 metr i'r dde o gornel nesaf y cae. Trowch hanner i'r dde ar draws y cae at y gornel gyferbyn. Ewch dros y gamfa. Trowch i'r chwith ar hyd ochr y gwrych nes i chi gyrraedd y giât mochyn sy'n arwain at lwybr caeedig o amgylch Ysgol Owrtyn. Cerddwch o amgylch ffens yr ysgol nes i chi gyrraedd y rhodfa. Trowch i'r chwith yna i'r dde ar hyd Lôn yr Ysgol i ddychwelyd i'r maes parcio.

Cynhyrchwyd y daith gerdded hon yn wreiddiol gan Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint gyda help Ken Farrell a Gordon Emery a chymorth grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Cafodd ei diweddaru gyda rhagor o help Ken ac fe'i paratowyd ar gyfer y rhyngrwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 2006.

Anfonwch eich ffotograffau digidol atom. Gweler www.wrexham.gov.uk/walks am fanylion llawn.

Adroddwch am unrhyw broblemau wrth rightsofway@wrexham.gov.uk
Ffôn: 01978 292057

DILYNWCH Y CÔD CEFN GWLAD
PARCHU – AMDDIFFYN - MWYNHAU

- Cadwch yn ddiogel – Cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch giatiau ac eiddo yn union fel y gwelsoch nhw

- Amddiffynnwch blanhigion ac anifeiliaid, ewch â sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth agos
- Ystyriwch bobl eraill